# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 07-05

### Dyddiad y cyfarfod: 22 Medi 2005
### Amser y cyfarfod: 9.00-12.30
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewn Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

#### Gwahoddedigion Sefydlog

| **Janet Davies AC** | **Pwyllgor y Rhanbarthau** |
|---|---|
| Rose D' Sa | Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Rob Halford | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Anna Daniel | Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

## Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) |
|---|---|---|
| David Frost | Cyfarwyddwr (UE) - Mewnol, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad | 4 |
| Edward Mason | Rheolwr Rhanddeiliaid, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad | 4 |
| Yr Athro Michael Scott | Pennaeth, Athrofa Addysg Gogledd Ddwyrain Cymru | 5 |
| Andrew Parry | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, Athrofa Addysg Gogledd Ddwyrain Cymru | 5 |
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiant

1.1 Nododd y Cadeirydd fod Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE wedi ymddiheuro

1.2 Nododd y Cadeirydd y byddai Janet Davies AC yn dirprwyo ar ran Ieuan Wyn Jones AC.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.4 Nododd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi cael gwahoddiad i gyfarfod â Chomisiynydd Hübner ar 29 Medi a gofynnodd i'r Aelodau roi gwybod i'r Clerc os oeddynt yn bwriadu derbyn y gwahoddiad.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi

Papur: EUR(2) 06-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf
Papur: EUR(2) 07-05 - Camau heb eu cymryd

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf yn gywir.

### Eitem 3: Adroddiad Prif Weinidog Cymru

Papur: EUR(2) 07-05 (p.1)

Camau i'w Cymryd

- Cytunodd Prif Weinidog Cymru i rannu rhestr ymhlith yr aelodau yn nodi'r digwyddiadau a oedd ar y gweill yng Nghymru ar gyfer Llywyddiaeth y DU ac, yn fwy penodol, nodyn ar y Digwyddiad Ieuenctid.
- Cytunodd Prif Weinidog Cymru i baratoi nodyn ar gyfer y Pwyllgor yn egluro pryd y byddai ystadegau newydd 'Ewrostat' ar berfformiad economaidd yn dod i rym.

### Eitem 4: Gwybodaeth am Lywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd

Papur: EUR(2) 07-05 (p.2)

Camau i'w cymryd

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau yng nghyd-destun y cynlluniau a nodwyd yn 'Prospects for the EU in 2005 - The UK Presidency of the European Union'

- Cytunodd swyddogion y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i baratoi nodyn i'r Clerc ar safbwynt y DU ar y strategaeth ar gyfer datblygu gwledig a gwarchod dynodiad daearyddol - e.e. cig oen Cymru.
- Byddai'r Pwyllgor yn falch pe bai'r Swyddfa'r Dramor a Chymanwlad, yn rhoi gwybodaeth amserol iddynt, drwy law'r Clerc, ar y gyfarwyddeb gwasanaethau a'r rheoliad cemegion (REACH).
- Cytunodd swyddogion y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i baratoi nodyn i'r Clerc ar y trafodaethau rhynglywodraethol ar newid yn yr hinsawdd, gan gyfeirio'n benodol at ollyngiadau

o awyrennau.

- Cytunodd swyddogion y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i baratoi nodyn i'r Clerc ar gymorth gwladwriaethol ar gyfer cwmnïau hedfan a meysydd awyr rhanbarthol, a'r goblygiadau posibl sydd ynghlwm wrth newid yn yr hinsawdd.
- Gan fod gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn materion yn ymwneud â hedfan, cynigion y Cadeirydd y dylid cynnwys hyn ar yr agenda yn y dyfodol. Cytunwyd ar hyn a gofynnwyd i'r Clerc gynnwys hyn yn y flaenraglen waith.
- Cytunodd swyddogion y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i baratoi nodyn i'r Clerc ar y trefniadau glo glân â Tsieina ac India, gan gynnwys y trefniadau ariannu a'r goblygiadau ar gyfer technoleg debyg yn yr UE/DU.

### Eitem 5: Athrofa Addysg Gogledd Ddwyrain Cymru - Partneriaethau Tramor

Papur: EUR(2) 07-05 (p.3)

5.1 Croesawodd yr Aelodau'r cyflwyniad

### Eitem 6: Canllawiau Drafft ar Gymorth Rhanbarthol

Papur: EUR(2) 07-05 (p.4)

Camau i'r Cymryd:

- Cytunodd y swyddogion i ddarparu map daearyddol ar ardaloedd a gynorthwyir 87(3)( c), pan oedd ar gael, yn ogystal â'r amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi'r canllawiau ar waith.
- Cytunodd y swyddogion i baratoi nodyn ar y diffiniad ffurfiol presennol o fentrau bach a chanolig ac ar y tebygolrwydd i'r diffiniad hwn newid.

### Eitem 7: Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

Camau i'w cymryd:

- Cytunodd Rosemary Butler i ddosbarthu papurau o seminar 'Global going Local: Europe Thinking Local for Growth and Jobs'
- Cytunodd Rosemary Butler i rannu cofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Rhanbarthau ymhlith yr Aelodau.
- Cytunodd y Cadeirydd y byddai'r strategaeth gyfathrebu'n cael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod ar 24 Tachwedd.

Gwasanaeth y Pwyllgorau